Hawdd ei Ddeall

# Cymryd Rhan Gyda'n Gilydd 2020 - 2021

## Ein cynllun i helpu pobl i weithio gyda'i gilydd yn y celfyddydau



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Fenter Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru i hybu Datblygu Cyfleoedd Rhwydweithio.**

Medi 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn ysgrifennu **glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os yw'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar dudalen 15.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag **Amanda Loosemore**:

**E-bost:** amanda.loosemore@arts.wales

**Ffôn:** 01267 230337

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon** 2

**Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn** 4

Beth bydd y rhwydweithiau'n ei wneud? 7

**Cefnogi rhwydweithiau** 8

**Sut i wneud cais am nawdd** 9

**Geiriau anodd** 12

# Am beth mae’r ddogfen hon yn sôn



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl yn y celfyddydau weithio gyda’i gilydd. Weithiau mae hyn yn cael ei alw’n **rhwydweithio**.




Rydyn ni’n mynd i roi arian i helpu i wneud i hyn ddigwydd.



Mae gennym ni ddiddordeb mawr mewn syniadau sy’n ymwneud ag **amrywioldeb** a **chynhwysiant**.



Mae **amrywioldeb** yn meddwl nad yw pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Â gwahanol alluoedd
- Yn credu gwahanol bethau
- Â gwahanol oedrannau.



Mae **cynhwysiant yn** meddwl y gall pawb gymryd rhan, ac mae pawb yn cael cyfle teg.



Mae arnon ni eisiau i leisiau pawb gael eu clywed.




Er enghraifft, mae gennym ni ddiddoreb yn yr ymgyrchoedd sy'n cael eu galw'n **Mae Bywydau Du yn Bwysig** ac **Fe Orchfygwn Ni**.

Dyma'r math o beth y gallai pobl fod yn awyddus i weithio arno:



- Cael mwy o gynulleidfaoedd amrywiol.




- Helpu lleisiau amrywiol i gael eu clywed. Er enghraifft, lleisiau pobl anabl.



- Helpu mwy o bobl fuasai ddim fel arfer yn cymryd rhan yn y celfyddydau i wneud hynny.



Gall rhwydweithiau o bobl weithio gyda'i gilydd mewn gwahanol ffyrdd.




Bydd rhai yn cyfarfod yn aml ac ni fydd rhai eraill yn cyfarfod.



Bydd rhai yn rhedeg ar-lein.




Bydd ar bob grŵp angen gwneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y rheolau ynghylch y coronafeirws.

## Beth fydd y rhwydweithiau yn ei wneud?

Byddan nhw'n gwneud pethau fel:




- Rhannu medrau



- Cefnogi ei gilydd



- Gweithio gyda'i gilydd



- Rhannu offer



- Siarad am syniadau

# Cefnogi rhwydweithiau



Byddwn yn cefnogi rhwydweithiau hen a newydd.



Fe hoffen ni weld rhwydweithiau newydd gan bobl sydd â diddordebau tebyg yn cael eu dechrau.



Gallwn ni roi arian i rai rhwydweithiau i helpu gyda:

- Pharatoi cyfarfod i siarad am rwydwaith newydd.



- Rhoi costau yn eu lle i gynnwys grŵp ar-lein.



Gall rhwydweithiau sydd wedi'i gosod yn eu lle yn barod i wneud cais am arian hefyd. Er enghraifft, i'w helpu i dyfu a chael mwy o bobl i gymryd rhan.



Mae'n bwysig gwneud yn siŵr y gall y rhwydwaith ddal i fynd heb ein nawdd ni yn y dyfodol. Un taliad unigol yw hwn.

# Sut i wneud cais am nawdd



Gallwch chi wneud cais am hyd at ddwy fil o bunnau ar gyfer prosiect.




Mae'n rhaid i'r prosiect ddigwydd cyn **Mawrth 2021**.




I wneud cais bydd arnoch chi angen llenwi ffurflen gais syml. Cysylltwch ag **Amanda** neu **Lisa** i gael ffurflen gais:

**Amanda Loosemore**
Rheolwr Portffolio, Ymgysylltu a Chyfranogi

**E-bost:** amanda.loosemore@arts.wales

**Ffôn:** 01267 230337

**Lisa Williams**
Cydgysylltydd Tîm, Ymgysylltu a Chyfranogi

**E-bost:** lisa.williams@arts.wales

**Ffôn:** 029 2044 1349




Anfonwch eich cais aton ni erbyn **5pm** ar **7 Hydref 2020**.

Bydd arnon ni angen i chi ddweud wrthyn ni:




- Beth yw eich manylion cyswllt a'ch mudiad.

- Beth sydd arnoch chi eisiau ei wneud a pham mae arnoch chi eisiau gwneud hyn.



- Pam y mae hyn yn bwysig.

- Faint o bobl rydych chi'n meddwl fydd yn cymryd rhan.



- Sut y byddwch chi'n cael pobl i gymryd rhan.

- Sut y bydd hi'n helpu pobl.



- Beth yw'r costau.




Gallwn ni dalu pob cost hyd at ddwy fil o bunnau.

Gallwn ni helpu gyda chostau fel:




- Llogi ystafell



- Digwyddiadau bwyd a diod
- Talu pobl i ddod i siarad yn y rhwydwaith neu i roi hyfforddiant



- Prynu neu logi offer.

**Os byddwch chi'n cael y nawdd, bydd yn rhaid i chi:**




- Ysgrifennu adroddiad byr am y gwaith wnaethoch chi. Er enghraifft, faint o bobl gymerodd ran a beth y byddwch chi'n ei wneud nesaf.

# Geiriau anodd

## Amrywioldeb

Mae hyn yn meddwl nad yw pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Â gwahanol alluoedd
- Yn credu gwahanol bethau
- Â gwahanol oedrannau.

## Cynhwysiant

Mae hyn yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, ac y mae pawb yn cael cyfle teg.